Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Cynorthwyydd Cymorth Cyflogres |
| **Lleoliad:** | Gweithio gartref |
| **Cyfarwyddiaeth:** | Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Swydd Rhif:** | BG00219 |
| **Cyflog:** | Gradd 4 (£24,294 - £26,421 pro rata/y flwyddyn) |
| **Oriau:** | 37 |
| **Contract:** | Parhaol |

**Crynodeb Swydd**

Mae cyfle wedi codi o fewn yr Adran Datblygu Sefydliadol i unigolion brwdfrydig a gyda chymhelliant uchel i ymuno â Thîm Cyflogres prysur. Bydd eich gweithgareddau dydd-i-ddydd yn amrywio ac yn canolbwyntio ar brosesu data cysylltiedig â chyflogaeth o fewn system Adnoddau Dynol/Cyflogres iTrent.

**Hysbyseb Lawn**

Yn eich swydd newydd bydd eich dyletswyddau yn cynnwys cyfrif a phrosesu pob eitem cysylltiedig â thâl yn cynnwys pob elfen alwedigaethol/statudol tebyg i dâl salwch a mamolaeth. Byddwch yn hwyluso data cyflogeion newydd o fewn system gorfforaethol Adnoddau Dynol/Cyflogres yn cynnwys prosesau cyn-cyflogaeth tebyg i wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Byddwch yn rhoi cefnogaeth a chymorth i weithwyr cyflogedig a rheolwyr ar bob agwedd cysylltiedig â thâl gan gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol.

Bydd gennych yr hyblygrwydd i ddefnyddio eich cymhelliant a chreadigrwydd i weithio ar ddatrysiadau i wella prosesau a'r gwasanaeth a gynigir i randdeiliaid.

Mae'r wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd eu hangen ar gyfer y swydd yn cynnwys:

- Profiad o weithio o fewn amgylchedd Adnoddau Dynol/Cyflogres
- Gallu i flaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun i sicrhau cadw at amserlenni
- Gallu i gyfathrebu'n hyderus yn ysgrifenedig a hefyd yn llafar
- Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
- Hyddysg mewn technoleg gwybodaeth

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio.**

**Dyddiad Cau:** **18/04/2024**

**Dyddiad Cyfweliadau:** **26/04/2024**